# Astudiaeth Achos

## Teithiau Llesol

Ysgol Gynradd Rhostryfan

Rhostryfan, Caernarfon

Cyngor Gwynedd



Ffigur 1: Map o Rostryfan a grëwyd gan ddisgyblion, yn amlygu'r rhwystrau i deithio llesol. ©Sustrans

## Cefndir

Ysgol gynradd Gymraeg yng nghefn gwlad Gwynedd yw Ysgol Gynradd Rhostryfan, gydag 84 o ddisgyblion. Mae'r trigolion a chymuned yr ysgol yn poeni am ddiogelwch disgyblion wrth gerdded, beicio a sgwtera i'r ysgol. Gan fod cludiant cyhoeddus yn gyfyngedig, a chan nad oes fawr ddim seilwaith ar gyfer teithio llesol, fel palmentydd a chroesfannau diogel, penderfynwyd creu cynllun teithio llesol i'r ysgol.

A'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn byw o fewn milltir i'r ysgol, nod y cynllun oedd cynyddu teithio llesol a lleihau'r defnydd o geir. Ceisiwyd mynd i'r afael hefyd â materion fel parcio anystyriol, croesfannau anniogel, a diffyg hyder a sgiliau beicio ymhlith cymuned yr ysgol.

Chwaraeodd y rhaglen deithio llesol ran hanfodol wrth adeiladu achos dros newid trwy weithgareddau amrywiol. Gyda chefnogaeth swyddog Teithiau Llesol Sustrans, cafodd yr ysgol a'r disgyblion eu grymuso i weithredu.

## Elfennau allweddol

**Creu achos dros newid:**

- Treuliwyd bore gyda'r disgyblion yn edrych ar fapiau i gynllunio taith gerdded i archwilio'r llwybrau.
- Treuliwyd prynhawn yn cerdded y llwybrau gyda'r disgyblion, gan dynnu lluniau o rwystrau, a nodi unrhyw broblemau ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau ar y mapiau.
- Crëwyd gweithgaredd dilynol ar gyfer y dosbarth, gan gynnwys ysgrifennu llythyrau, llunio holiaduron i rieni, a chreu maniffesto.
- Yn ogystal, cymerodd yr ysgol ran yn yr Arolwg Cenedlaethol ar Deithio i'r Ysgol, 'Dwylo i Fyny'.

Rhoddodd gweithgareddau'r disgyblion hwb enfawr i gais Cyngor Gwynedd am gyllid dan gynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, lle cyflwynwyd gwaith y disgyblion, sef copi o'r map, dogfen yn manylu pam fod teithio'n llesol yn anodd ac yn anniogel yn y pentref, llythyr gan y dosbarth at Gyngor Gwynedd, awgrymiadau ar sut i ddatrys y problemau, yn ogystal â chanlyniadau'r holiadur rhieni.

## Cyflawniadau

Ni ellir gorbwysleisio effaith lleisiau'r disgyblion ar ba mor ddifrifol yr aeth yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru ati i ariannu'r cynllun. Mae gan eu llais nhw y grym i ail-ffurfio'u hamgylchedd, a diogelu'r seilwaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Roedd cymryd rhan yn y rhaglen Teithiau Llesol a'r gweithgareddau ymarferol a wnaed gyda'r disgyblion yn allweddol i Gynllun Teithio Llesol Ysgol Gynradd Rhostryfan a llwyddiant y cais dilynol am gyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Hybwyd diogelwch ac ymwybyddiaeth disgyblion wrth deithio i'r ysgol gan osod esiampl i ysgolion eraill fydd yn ceisio am welliannau tebyg.

**O ganlyniad, caniatawyd cyllid yn 2024 ar gyfer nifer o welliannau seilwaith a allai gynnwys:**

- Ramp hygyrch wrth fynedfa gefn yr ysgol.
- Gwelliannau i'r llwybr o'r maes parcio.
- Gwell arwyddion / mynegbyst.
- Man croesi newydd heb ei reoli wrth y fynedfa flaen.

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government